



Gwasanaeth Cymdeithasol Addysg

CANLLAW I GYFLOGWYR

Cyflogaeth Rhan Amser
Plant (Oedran ysgol)

Gwasanaethau Addysg
Adeiladau'r Llywodraeth
Ffordd Dinerth
Bae Colwyn
LL28 4UL
☎: (01492) 575 096

Eglura'r daflen hon y gofynion cyfreithiol i weithwyr rhan amser sydd o oedran ysgol gorfodol. Mae hyn yn cynnwys rhai sydd ym mlwyddyn 11 y Cwricwlwm Cenedlaethol, hyd yn oed os ydynt yn 16 oed. **NID YW'R** rheolau yn dod i ben ar ben-blwydd y person ifanc yn 16 oed.

Mae cyflogi plant oed ysgol yn rhan amser yn amodol i reolau yr Awdurdod Addysg Lleol.

Beth yw "Cyflogaeth"?

Nid yw'r holl waith mae plant yn ei wneud yn amodol i'r rheolau. Nid yw tasgau o gwmpas y ty neu i gymdogion, gofalu am fabanod ac unrhyw waith arall i unigolion neu deuluoedd, profiad gwaith (a drefnir gan ysgol eich plentyn) yn "gyflogaeth".

Cyflogaeth yw **UNRHYW** waith a wneir yn fasnachol neu alwedigaethol a gyflawnir er mwyn gwneud elw neu mewn unrhyw fenter fasnachol. E.e. **Siopau, Busnesau, Masnachu.**

Mae hyn yn **cynnwys** unrhyw waith gysylltir â busnes y rhieni a gwaith lle na chaiff y plentyn ei dalu. Mae gwaith o'r fath yn **ANGHYFREITHLON** oni bai fod y cyflogwr yn cael trwydded ar gyfer pob plentyn a gyflogir.

TREFN GOFRESTRU

O fewn wythnos o gyflogi plentyn dylai'r **CYFLOGWR** anfon ffurflen gais wedi ei chwblhau at yr Awdurdod yn nodi'r gwaith y bydd y plentyn yn ei wneud. Dylai'r ffurflen gael ei harwyddo gan y rhiant. Os bydd y gwaith yn cyd-fynd â'r rheolau, cyhoeddi'r trwydded.

Efallai **NA FYDD** plant heb drwydded yn cael eu cyfrif fel gweithwyr at bwrpas yswiriant. Gall y cyflogwr wynebu erlyniad.

GOFYNIION CYFREITHIOL

Mae'r gwaith gall plant ei wneud wedi ei reoli'n llym e.e. oedran, oriau a math o waith.

NI ELLIR CYFLOGI PLANT DAN 13 OED.

NI ALL UNRHYW BLENTYN WEITHIO CYN 7:00 A.M. NAC AR ÔL 7:00 P.M. AR UNRHYW DDIWRNOD (Mae hyn yn cynnwys dydd Sadwrn a gwyliau).

NI ALL UNRHYW BLENTYN WEITHIO MWY NA 2 AWR AR DDIWRNOD YSGOL.

NI ALL UNRHYW BLENTYN O DAN 15 OED WEITHIO MWY NA 5 AWR Y DYDD A'R DDYDD SADWRN A GWYLIAU. (Uchafswm o 25 awr yr wythnos).

NI ALL PLENTYN 15 OED A THROSODD WEITHIO MWY NA 8 AWR Y DYDD AR DDYDD SADWRN A GWYLIAU. (Uchafswm o 35 awr yr wythnos).

NI CHAIFF UNRHYW BLENTYN WEITHIO MWY NA 2 AWR AR DDYDD SUL. (Rhwyng 7:00 a.m. - 7:00 p.m.).

NI ALL UNRHYW BLENTYN WEITHIO MWY NA 4 AWR Y DYDD HEB GYFNOD GORFFWYS O AWR AC O LEIAF 2 WYTHNOS YN OLYNOL HEB WAITH YN YSTOD GWYLIAU'R YSGOL.

GWAITH A WAHARDDWYD I BOB PLENTYN

Er Enghraifft:- Ceginau masnachol, Siopau sglodion, Dosbarthu llefrith, Stondinau marchnad.

Am ragor o wybodaeth cysyllter â'r:

Gwasanaethau Addysg:

☎: (01492) 575 096